

## Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) Adolygiad Cyflym

**Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau/arloesiadau sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol.**

**Rhif yr adroddiad - RR00028 (Ebrill 2022)**

### Manylion yr Adolygiad Cyflym

**Cynhaliwyd yr adolygiad gan:**

Ganolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

**Tîm Adolygu:**

- Deborah Edwards
- Judit Bony
- Liz Gillen
- Judith Carrier

**Cyflwynwyd yr adolygiad i'r WCEC ar:**

28 Mawrth 2022

**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:**

29 Mawrth 2022

**Cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Cyflym gan y WCEC:**

Mai 2022

**Tîm y WCEC:**

- Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Becki Law, Jane Greenwell yn ymwneud â drafftio Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a golygu

**Dylid enwi'r adolygiad hwn fel a ganlyn:**

RR00028. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau/datblygiadau arloesol sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol. Ebrill 2022.

**Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn yma:**

<https://ymchwiliachydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

**Ymwadiad:** Y farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yw barn yr awduron, nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

# Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau/arloesiadau sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol.

Rhif yr adroddiad - RR00028 (Ebrill 2022)

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

### Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad o'r dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i greu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan barhau i roi sylw i ogwydd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal ac adrodd am adolygiadau cyflym, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, echdynnu data, gwerthuso beirniadol, a synthesis tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau ymchwil allweddol. Maent yn cymryd 1-2 fis, yn dibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/cwestiwn(ynau) ymchwil, hyd a lled y sylfaen dystiolaeth, a'r math o ddadansoddiad sydd ei angen ar gyfer synthesis.

Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â **map tystiolaeth gyflym blaenorol a gyhoeddwyd fel: Pa arloesiadau (gan gynnwys dychwelyd i ymarfer) a fyddai'n helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG? Map tystiolaeth gyflym, rhif yr adroddiad – REM00028 (Mai 2022)**

### Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn profi **prinder gweithlu aciwt** ym mhob disgyblaeth, ar adeg pan fo **amseroedd aros ar eu huchaf erioed** ac mae **ôl-groniad** cynyddol yn deillio o **bandemig COVID-19**. Nod yr Adolygiad Cyflym hwn oedd archwilio **effeithiolrwydd ymyriadau neu arloesiadau** sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i **gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol**. Mae'r adolygiad yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiadau presennol a ategir gan werthusiad manylach o astudiaethau sylfaenol a gynhwyswyd a gynhaliwyd yn y DU neu Ewrop.

### Canfyddiadau Allweddol

#### Hyd a lled y sylfaen dystiolaeth

- Cynhwyswyd 8 adolygiad systematig ac 1 adolygiad cwmpasu (gydag elfen werthuso). Roedd yr adolygiadau'n cynnwys 292 o astudiaethau sylfaenol (218 o astudiaethau unigryw), a chynhaliwyd 9 ohonynt yn Ewrop a'r DU.
- Roedd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar ddeintyddion (n=1), ymarferwyr cyffredinol (n=1), meddygon (n=1); y gweithlu meddygol gan gynnwys israddedigion (n=1), israddedigion meddygol (n=1), ac amrywiaeth o wahanol weithwyr iechyd proffesiynol (n=3) gan gynnwys y rhai mewn hyfforddiant (n=1).
- Roedd y rhan fwyaf o adolygiadau (n=8) yn chwilio am dystiolaeth o ymyriadau mewn ardaloedd gwledig, anghysbell neu ardaloedd heb wasanaeth digonol.
- Cafodd yr ymyriadau eu mapio ar draws categorïau a ddisgrifiwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (2010).

#### Diweddarwch y sylfaen dystiolaeth

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r astudiaethau cynradd (n=275) o fewn yr 20 mlynedd diwethaf.

#### Tystiolaeth o effeithiolrwydd

##### Ymyriadau addysgol (8 adolygiad):

- **Dewis myfyrwyr yn seiliedig ar gefndir gwledig: cysylltiad cadarnhaol â recriwtio a chadw staff** (tystiolaeth o ansawdd cymedrol-isel o 5 adolygiad).

- **Lleoli sefydliadau addysg mewn ardaloedd gwledig** / darparu hyfforddiant mewn ysgolion meddygol gwledig: **cysylltiad cadarnhaol** â *recriwtio a chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 3 adolygiad).
- Dod i gysylltiad â **phynciau iechyd gwledig fel rhan o'r cwricwla a addysgir** ar gyfer israddedigion ac ôl-raddedigion: **cysylltiad cadarnhaol** â *recriwtio* (tystiolaeth o ansawdd cymedrol-isel o 2 adolygiad).
- **Lleoliadau clinigol** gwledig, cymrodoriaethau neu interniaethau mewn addysg israddedig neu ôl-raddedig: **tystiolaeth gymysg** sy'n gysylltiedig â bwriadau gwledig neu gyflogaeth wirioneddol (*recriwtio a chadw*; dystiolaeth adolygu o ansawdd isel o 7 adolygiad).
- **Hwyluso addysg barhaus** i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gwledig ac anghysbell: cysylltiad cadarnhaol â *recriwtio a chadw gwledig* (tystiolaeth o ansawdd isel o 2 adolygiad).
- **'Rhaglenni hyfforddi gwledig'**: **cysylltiad cadarnhaol** ar gyfer meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (tystiolaeth o ansawdd cymedrol o 2 adolygiad) gyda *recriwtio a chadw* gwledig.

**Ymyriadau rheoleiddiol sy'n gofyn am ddychwelyd i wasanaeth mewn ardaloedd gwledig (6 adolygiad):**

- Cynlluniau bondiau, **ysgoloriaethau neu fwrsariaethau**: **cysylltiad cadarnhaol** â *recriwtio* ond nid *cadw* (Tystiolaeth o ansawdd isel o 2 adolygiad)
- **Hepgor Fisâu**: **tystiolaeth gymysg** ar *recriwtio a chadw* (4 adolygiad)
- **Cymelliadau ariannol**: **tystiolaeth gymysg** (1 adolygiad)
- **Ad-daliadau benthyciadau**: yn gysylltiedig â lefel uchel o *gadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 1 adolygiad)
- **Mynediad at drwyddedau proffesiynol** a/neu rif darparwr ar gyfer graddedigion meddygol rhyngwladol: yn gysylltiedig â lefel isel o *gadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 1 adolygiad)
- **Hyfforddiant clinigol wedi'i gyflymu**: cysylltiad cadarnhaol â *chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 1 adolygiad)
- **Gwella cwmpas ymarfer**: **cysylltiad cadarnhaol** â *chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 1 adolygiad)
- **Gwasanaeth gorfodol**: **cysylltiad effeithiol/cadarnhaol** â *chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 2 adolygiad)
- Cynllun Yswiriant Iechyd Gwladol: effeithiol o ran *recriwtio a chadw* (tystiolaeth adolygu sicrwydd isel o 1 adolygiad; dim ond un astudiaeth fach a nodwyd)

**Cymelliadau ariannol heb y gofyniad i ddychwelyd i wasanaeth (3 adolygiad):**

- **Manteision sy'n gwneud gweithio mewn ardaloedd gwledig** yn fwy deniadol ac yn gwrthbwysu costau/colledion eraill (e.e. cyflogau uwch) **neu fuddion mewn nwyddau neu wasanaethau** (e.e. tai neu gerbydau â chymhorthdal neu am ddim): **tystiolaeth amhendant** ar gyfer gwledydd incwm uchel, ond cysylltiad cadarnhaol mewn gwledydd incwm canolig ar gyfer gwella *recriwtio a chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 3 adolygiad). Nododd astudiaeth o ansawdd isel iawn yn y DU **fod cysylltiad cadarnhaol**.
- **Rhaglenni ad-dalu benthyciadau**: **cysylltiad cadarnhaol** â *chadw* (tystiolaeth o ansawdd isel o 1 adolygiad)

**Cymorth personol a phroffesiynol – ffactorau sy'n gwella amodau byw a gweithio mewn ardaloedd gwledig (3 adolygiad):**

- Cysylltiad cadarnhaol â *chadw* (tystiolaeth lefel isel o 3 adolygiad)

**Strategaethau wedi'u bwndelu (4 adolygiad):**

- Roedd consensws bod ymyriadau aml-gydran yn cael effaith gadarnhaol ar *recriwtio*, a *chadw'r* gweithlu gwledig.

### **Goblygiadau Polisi**

- Mae'r adolygiad yn nodi amrywiaeth o ymyriadau y gellir eu defnyddio i wella recriwtio a chadw staff yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n cefnogi ymyriadau aml-gydran.
- Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd darparu a lleoli hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig mewn lleoliadau gwledig.
- Mae'r canfyddiadau'n ategu'r defnydd o gynlluniau bwrsariaeth ar gyfer hyfforddiant, fel y rhai sydd eisoes ar gael ar gyfer Nyrsio yng Nghymru.
- Mae angen gwerthusiadau pellach, mwy cadarn, yn seiliedig ar astudiaethau cymharol, i asesu effeithiolrwydd ymyriadau i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol. Prin oedd y dystiolaeth ar ymyriadau a anelwyd at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

### **Cryfder y Dystiolaeth**

Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau sylfaenol a gynhwyswyd yn yr adolygiadau yn defnyddio carfan (cyn-wedi prawf) neu ddyluniadau trawsadrannol. Nid oedd gan y rhan fwyaf o astudiaethau grŵp cymharu ac nid oeddent yn defnyddio dadansoddiad ystadegol.

### **Gellir lawrlwytho fersiwn llawn yr adroddiad hwn o lyfrgell WCEC:**

<https://ymchwiliachydogofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>